**DRAFFT - GOFYNION PRENTISIAETHAU**

# Manyleb Brentisiaethau Cymru (ASC)

## 1. Cyflwyniad

### 1.1. Statws a sail gyfreithiol

1.1.1. Mae'r ddogfen hon, sef Manyleb Brentisiaethau Cymru ("y Fanyleb"), wedi ei gwneud o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf").

1.1.2. Mae'n pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni mewn perthynas â phrentisiaeth Gymreig gymeradwy.

1.1.3. O **1 Awst 2027** ymlaen, bydd y Fanyleb hon yn nodi'r gofynion y mae rhaid eu bodloni mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy yr ymrwymir iddynt ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. Mae'n disodli Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW), a oedd yn weithredol o dan adran 28 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

1.1.4. Pan fynegir bod darpariaeth yn orfodol, mae'n ofynnol cydymffurfio â hi. Pan ganiateir hyblygrwydd neu ddisgresiwn, nodir hyn yn benodol.

### 1.2. Diffiniadau

1.2.1. Yn y Fanyleb hon:

i. ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy" yw'r ystyr a roddir yn adran 111 o'r Ddeddf;

ii. ystyr "dysgu ac asesu cyfwerth" yw trefniadau dysgu ac asesu sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol, pan fo cyflawniad yn cael ei ddangos drwy'r trefniadau asesu a bennir o dan baragraff 2.2.7 yn hytrach na thrwy gymhwyster;

iii. ystyr "Sgiliau Hanfodol" yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol (Cymru) mewn Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu, Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif a Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol;

iv. ystyr "fframwaith" yw fframwaith prentisiaeth fel y'i diffinnir yn adran 114 o'r Ddeddf;

v. ystyr "Canllawiau" yw'r ddogfen o'r enw **Canllawiau ar Gymhwyso Manyleb Brentisiaethau Cymru**, a gyhoeddir ar wahân;

vi. ystyr "safonau galwedigaethol" yw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC), safonau galwedigaethol cydnabyddedig a safonau proffesiynol cydnabyddedig;

vii. ystyr "Rhestr Brocsi" yw'r **Rhestr o Gymwysterau Procsi Cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol (Cymru)**, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Fanyleb hon;

viii. ystyr "cymwysterau procsi" yw cymwysterau a gydnabyddir drwy'r Rhestr Brocsi fel dull amgen o ddarparu tystiolaeth o Sgiliau Hanfodol penodedig; ac

ix. ystyr “Gofynion” yw’r gofynion a bennir yn y Fanyleb hon o dan adran 115 o’r Ddeddf.

## 1.3. Diben y Fanyleb

1.3.1. Diben y Fanyleb hon yw sicrhau bod prentisiaethau Cymreig cymeradwy yn gydlynol, yn gadarn ac yn gyson o ran eu hansawdd.

1.3.2. Mae’r Fanyleb yn darparu sail dryloyw sy’n gadarn yn gyfreithiol ac y gellir ei chyhoeddi, ar gyfer cymeradwyo, adolygu, diwygio a thynnu’n ôl fframweithiau.

1.3.3. Mae’r Fanyleb yn sefydlu llinell sylfaen genedlaethol glir ar gyfer fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru, gan sicrhau bod prentisiaethau:

i. yn cefnogi’r gwaith o gyflawni cymhwysedd galwedigaethol;
ii. yn ymateb i anghenion y farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; a
iii. yn cyfrannu at system addysg drydyddol sy’n gydlynol ac o ansawdd uchel.

1.3.4. Bwriad y Fanyleb yw darparu fframwaith sefydlog a pharhaus ar gyfer darparu prentisiaethau, sydd wedi ei ategu gan Ganllawiau a threfniadau gweithredol y gellir eu diweddaru’n amlach i adlewyrchu anghenion y system.

## 1.4. Cwmpas y Gofynion

1.4.1. Mae’r Gofynion hyn yn gymwys i brentisiaethau Cymreig cymeradwy. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gydymffurfio â’r Gofynion er mwyn iddo gael ei gyhoeddi gan Medr o dan adran 117 o’r Ddeddf.

1.4.2. Maent yn ymwneud â materion sy’n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

i. cynnwys, strwythur a gofynion cymeradwyo’r fframwaith;
ii. cymhwysedd galwedigaethol, gwybodaeth dechnegol a chymwysterau;
iii. asesu, cyflawni a chwblhau’n llwyddiannus;
iv. Sgiliau Hanfodol a chymwysterau procsi;
v. gofynion hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o’r gwaith;
vi. materion i’w hystyried pan fydd fframweithiau yn cael eu llunio, eu hadolygu neu eu tynnu’n ôl.

## 1.5. Cynulleidfa, cymhwyso a pherthynas y Fanyleb â’r canllawiau

1.5.1. Bwriedir i’r Gofynion fod ar gyfer:

i. Medr, fel y corff sy’n gyfrifol am gymeradwyo, cyhoeddi, cynnal ac adolygu fframweithiau prentisiaethau ac, pan fo angen, eu tynnu’n ôl, am gynnal y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau, ac am baratoi fframweithiau prentisiaethau pan fo hynny’n briodol neu sicrhau eu bod yn cael eu datblygu gan gyrff eraill;
ii. datblygwyr fframweithiau, y mae rhaid iddynt sicrhau bod fframweithiau arfaethedig yn bodloni’r Gofynion;
iii. darparwyr prentisiaethau, y mae rhaid iddynt ddarparu prentisiaethau Cymreig cymeradwy yn unol â fframweithiau cyhoeddedig a’r gofynion cymwys;

iv. cyflogwyr, sy'n ymwneud â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy a ddatblygir ac a gymeradwyir o dan y Gofynion ac a all ddibynnu ar y ffaith bod fframweithiau cyhoeddedig yn bodloni'r safonau a nodir yn y Fanyleb hon;
v. cyrff dyfarnu, pan fônt yn berthnasol i'r cymwysterau a bennir mewn fframweithiau prentisiaethau.

1.5.2. Gweinidogion Cymru fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y Fanyleb ac am bennu'r gofynion ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy o dan adran 115 o'r Ddeddf.

1.5.3. Wrth gymhwyso'r Gofynion:

i. rhaid i Medr fod wedi ei fodloni bod fframweithiau prentisiaethau yn cydymffurfio â'r gofynion gorfodol a nodir yn y Fanyleb hon wrth eu cymeradwyo, eu hadolygu neu eu cynnal;
ii. rhaid i ddatblygwyr fframweithiau ddangos yn glir sut y mae pob gofyniad perthnasol yn cael ei fodloni wrth gyflwyno fframweithiau i'w cymeradwyo neu i'w hadolygu;
iii. rhaid i ddarparwyr ddarparu prentisiaethau Cymreig cymeradwy mewn modd sy'n gyson â fframweithiau cyhoeddedig a bwriad y Gofynion.

1.5.4. Mae'r Fanyleb hon yn gwahaniaethu'n glir rhwng:

i. gofynion gorfodol, y mae rhaid cydymffurfio â hwy;
ii. hyblygrwydd a ganiateir, pan gaiff fframweithiau neu fodelau darparu amrywio o fewn paramedrau wedi eu diffinio; a
iii. materion yr ymdrinnir â hwy drwy ganllawiau, pan fo manylion ychwanegol wedi eu darparu i gefnogi'r gwaith o ddehongli a darparu fframweithiau mewn ffordd gyson.

1.5.5. Pan na fo materion wedi eu pennu'n fanwl yn y Fanyleb hon, caniateir ymdrin â hwy drwy Ganllawiau cyhoeddedig neu drefniadau gweithredol. Mae'r Canllawiau yn cefnogi'r gwaith o ddehongli a darparu fframweithiau mewn ffordd gyson ond nid ydynt yn creu gofynion ychwanegol nac yn trechu'r gofynion gorfodol a nodir yn y Fanyleb hon.

1.5.6. Cymwysterau procsi yw'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y Rhestr Brocsi sydd mewn grym ar y dyddiad y daw'r fframwaith prentisiaeth perthnasol i rym, oni nodir yn wahanol.

## 1.6. Dogfennau cysylltiedig

1.6.1. Dylid darllen y Fanyleb hon ochr yn ochr â'r dogfennau cysylltiedig a ganlyn, sy'n ategu sut y caiff ei chymhwyso a'i gweithredu:

i. Canllawiau ar Gymhwyso Manyleb Brentisiaethau Cymru (Canllawiau), a gyhoeddir ar wahân;
ii. Y Rhestr o Gymwysterau Procsi Cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol (Cymru) (y Rhestr Brocsi), a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru;
iii. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Fanyleb hon a dogfen gysylltiedig, y Fanyleb hon sy'n drech.

## 1.7. Cychwyn a threfniadau trosiannol

1.7.1. Daw'r Gofynion yn y Fanyleb hon i rym ar 1 Awst 2027.

1.7.2. O'r dyddiad hwnnw, rhaid defnyddio'r gofynion a nodir yn y Fanyleb hon wrth wneud y canlynol (o dan y Ddeddf):

i. datblygu fframweithiau prentisiaethau newydd;
ii. adolygu neu ddiweddaru fframweithiau presennol;
iii. ystyried a fydd fframweithiau presennol yn parhau i gael eu cymeradwyo.

1.7.3. Dylai unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'r Fanyleb hon nodi unrhyw drefniadau trosiannol sy'n gymwys wrth ei gweithredu.

1.7.4. Oni nodir yn wahanol mewn unrhyw drefniadau trosiannol, caiff prentisiaid yr ymrwymwyd i'w prentisiaeth Gymreig gymeradwy cyn i Fanyleb ddiwygiedig ddod i rym barhau hyd nes y byddant yn cwblhau'r brentisiaeth o dan y gofynion a oedd mewn grym ar y dyddiad yr ymrwymwyd i'r brentisiaeth Gymreig gymeradwy.

### 1.8. Adolygu a newid

1.8.1. Caniateir adolygu, diwygio neu dynnu'n ôl y Gofynion yn y Fanyleb hon yn unol ag adran 115 o'r Ddeddf. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Gofynion yn cael eu cyhoeddi a byddant yn cynnwys dyddiad cychwyn clir.

1.8.2. Bydd y Fanyleb fel arfer yn cael ei hadolygu'n gyfnodol, gan ystyried newidiadau deddfwriaethol, datblygiadau yn y farchnad lafur, a pherfformiad y system.

1.8.3. Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn gymesur â'u heffaith. Bydd unrhyw ddiwygiad i'r gofynion o dan y Fanyleb hon, neu unrhyw achos o'u tynnu'n ôl, yn cael ei wneud yn unol ag adrannau 115 ac 116 o'r Ddeddf.

1.8.4. Bydd newidiadau'n cael eu cyfathrebu gyda chyfnodau rhybudd priodol er mwyn sicrhau bod y system yn barod, gan gynnwys ar gyfer darparwyr, cyrff dyfarnu a chyflogwyr.

### 1.9. Ymwadiad

1.9.1. Mae'r holl hyperddolenni yn gywir ar adeg dyroddi'r Fanyleb hon. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol os bydd unrhyw ddolenni o'r fath wedi darfod o ganlyniad i ddogfennau'n cael eu diweddaru neu dudalennau cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr yn ystod oes y Fanyleb hon.

## 2. Fframweithiau Prentisiaethau

### 2.1. Pob Fframwaith Prentisiaeth

2.1.1. Rhaid i fframwaith fodloni'r gofynion a nodir yn y Fanyleb hon, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r canlynol:

i. cymhwysedd galwedigaethol, gwybodaeth dechnegol a chwblhau'n llwyddiannus;
ii. cymwysterau neu safonau galwedigaethol, pan fônt yn gymwys; a
iii. y math o hyfforddiant neu faint o hyfforddiant yr ymgymerir ag ef.

2.1.2. Mae'r Gofynion yn y Fanyleb hon wedi eu strwythuro yn ôl cymwysterau, cymhwysedd galwedigaethol, gofynion ychwanegol, Sgiliau Hanfodol a hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

2.1.3. Ni chaiff fframwaith fod mor gul fel nad yw ond yn berthnasol i gyflogwr neu weithle penodol. Rhaid iddo gefnogi cymhwysedd galwedigaethol sy'n drosglwyddadwy o fewn y sector perthnasol.

2.1.4. Rhaid i fframwaith bennu ei lefel gan ddefnyddio'r disgrifyddion lefel cenedlaethol a ddisgrifir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

2.1.5. Rhaid i fframwaith fod:

i. ar Lefel 2 i fod yn Brentisiaeth Sylfaen;
ii. ar Lefel 3 i fod yn Brentisiaeth;
iii. ar Lefel 4 neu 5 i fod yn Brentisiaeth Uwch; a
iv. ar Lefel 6 neu 7 i fod yn Radd-Brentisiaeth.

2.1.6. Rhaid i fframwaith bennu isafswm y dysgu ar ffurf credydau FfCChC. Rhaid i nifer y credydau adlewyrchu'r dysgu sy'n ofynnol er mwyn cyflawni cymhwysedd galwedigaethol llawn yn y sgìl, y grefft neu'r alwedigaeth y mae'n ymwneud ag ef neu â hi.

2.1.7. Rhaid i gyfrifiadau credyd ddeillio o ddiffiniadau FfCChC ac:

i. pan fo cymwysterau wedi eu cynnwys, rhaid iddynt fod yn gyson â swm yr oriau dysgu a gyhoeddwyd ar gyfer pob cymhwyster sydd wedi ei gynnwys yn y fframwaith; neu
ii. pan na fo cymwysterau wedi eu cynnwys, rhaid iddynt fod yn seiliedig ar amcangyfrif cadarn â thystiolaeth o gyfanswm yr oriau dysgu sy'n ofynnol i gyflawni cymhwysedd galwedigaethol llawn, sydd wedi ei lywio gan safonau galwedigaethol a gofynion asesu.

2.1.8. Pan na fo gwerthoedd credyd yn deillio o gyfeirio at gymwysterau, rhaid i fframweithiau ddangos yn glir:

i. sut y mae'r oriau dysgu wedi eu hamcangyfrif;
ii. sut y mae'r rhain yn cyd-fynd ag egwyddorion credyd FfCChC; a
iii. sut y mae cyfanswm arfaethedig y dysgu yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cymhwysedd galwedigaethol.

2.1.9. Rhaid i fframwaith gynnwys 37 o gredydau o leiaf ar gyfer cydrannau cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol (heb gynnwys Sgiliau Hanfodol), pa un a yw'n cael ei ddarparu drwy gymwysterau ar wahân, cymhwyster cyfun, neu ddysgu ac asesu cyfwerth. Rhaid penderfynu gwerthoedd credyd sy'n deillio o ddysgu ac asesu cyfwerth yn unol â pharagraff 2.1.7(ii). Mewn sawl achos, bydd fframweithiau gryn dipyn yn fwy na'r isafswm hwn.

2.1.10. Rhaid i'r gwerth credyd a briodolir i gymhwysedd galwedigaethol gynrychioli o leiaf 50% o gyfanswm y gwerth credyd, oni bai bod gan y fframwaith gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth cyfun y mae rhaid iddo fod yn 37 o gredydau o leiaf.

2.1.11. Rhaid adolygu fframwaith yn gyfnodol i sicrhau ei fod yn gyfredol a'i fod yn parhau i ddiwallu anghenion y sector, yn unol â threfniadau adolygu a benderfynir gan Medr.

2.1.12. Wrth ddatblygu, cymeradwyo, adolygu neu ddiwygio fframweithiau prentisiaethau, rhaid i Medr roi sylw i gyfleoedd i wella mynediad at brentisiaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ystyried y galw gan ddysgwyr, y gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol, ac argaeledd safonau, cymwysterau a threfniadau asesu ategol.

2.1.13. Rhaid i fframwaith gynnwys dyddiad ei ddyroddi a'r dyddiad erbyn pryd y bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol.

## 2.2. Cymwysterau a Chymhwysedd Galwedigaethol

2.2.1. Rhaid i fframwaith nodi naill ai:

i. cymhwyster cymhwysedd galwedigaethol a chymhwyster gwybodaeth dechnegol galwedigaethol; neu
ii. cymhwyster integredig (cyfun) sy'n cynnwys cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol; neu
iii. pan na fo cymwysterau ar gael neu pan fo angen eu datblygu, rhaid i'r fframwaith bennu'r safonau galwedigaethol perthnasol (a, phan fo'n gymwys, caniateir cyfeirio at gymwysterau drafft pan ddisgwylir cymeradwyaeth reoleiddiol).

2.2.2. Pan gyfeirir at gymwysterau drafft ar y sail bod disgwyl i un o reoleiddwyr cymwysterau'r DU gymeradwyo'r cymwysterau, rhaid i'r fframwaith:

i. pennu unrhyw isafswm gwerth credyd neu unrhyw amodau eraill yn unol â'r Fanyleb hon; a
ii. ei gwneud yn glir sut y bydd y fframwaith yn parhau i fod yn weithredol os nad yw cymeradwyaeth reoleiddiol yn cael ei sicrhau mewn pryd ar gyfer ei weithredu.

2.2.3. Pan fo cymwysterau wedi eu cynnwys, rhaid i gymwysterau cymhwysedd a chymwysterau gwybodaeth fod yn gyson â lefel y fframwaith.

2.2.4. Pan fo cymwysterau wedi eu cynnwys, rhaid i'r cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol a'r cymwysterau gwybodaeth dechnegol (neu'r cymhwyster integredig) naill ai:

i. cael eu cynnig (neu ei gynnig) gan gorff dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a gydnabyddir gan un o reoleiddwyr cymwysterau'r DU;
ii. cael eu cynnig (neu ei gynnig) gan gorff dyfarnu graddau a reoleiddir gan Medr; neu
iii. cael eu cynnig (neu ei gynnig) gan gorff cydnabyddedig yn y diwydiant a bodloni gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol.

2.2.5. Rhaid i Medr fod wedi ei fodloni bod unrhyw gymhwyster a bennir mewn fframwaith yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol cymwys, gan gynnwys adran 34 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 pan fo'n gymwys.

2.2.6. Ac eithrio pan fo wedi ei ganiatáu'n benodol mewn mannau eraill yn y Fanyleb hon, rhaid i'r prentis gyflawni holl gydrannau gofynnol y fframwaith, gan gynnwys cymwysterau, neu pan fo'n gymwys, gydrannau sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol, er mwyn cymhwyso i gael tystysgrif brentisiaeth Gymreig.

2.2.7. Pan fo cydrannau yn seiliedig ar safonau galwedigaethol, rhaid i'r fframwaith:

i. pennu'r safonau cyrhaeddiad sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus; a
ii. pennu'r trefniadau asesu y bydd cyflawniad yn erbyn y safonau hynny yn cael ei asesu drwyddynt a thystiolaeth o'r cyflawniad hwnnw yn cael ei darparu drwyddynt, gan gynnwys tystiolaeth o gymhwysedd sy'n deillio o weithgarwch yn y gweithle ac sy'n cyd-fynd â'r safonau galwedigaethol perthnasol.

2.2.8. Rhaid gallu asesu'r rhan fwyaf o'r gydran cymhwysedd galwedigaethol, pa un a yw'n cael ei darparu drwy gymhwyster neu ddysgu ac asesu cyfwerth, ar sail tystiolaeth a gafwyd drwy hyfforddiant yn y gwaith.

2.2.9. Rhaid i gymhwysedd galwedigaethol:

i. bod yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC), pan fônt yn bodoli; neu
ii. pan na fo SGC yn bodoli, fod yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cydnabyddedig neu safonau proffesiynol cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r alwedigaeth;

2.2.10. Pan fo cymwysterau wedi eu cynnwys, rhaid iddynt gyd-fynd â'r safonau perthnasol yn unol ag is-baragraff (i) neu (ii).

2.2.11. Rhaid i'r gydran neu'r elfen gwybodaeth dechnegol ddarparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sylfaenol sy'n ofynnol i gefnogi cymhwysedd galwedigaethol.

2.2.12. Pan fo cymhwysedd a gwybodaeth yn cael eu darparu drwy gymhwyster integredig, rhaid nodi pob elfen yn glir yn y fframwaith.

2.2.13. Rhaid i'r cydrannau cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol, pa un a ydynt yn cael eu darparu drwy gymwysterau neu ddysgu ac asesu cyfwerth, gyd-fynd â lefel y fframwaith fel y'i pennir yn unol â pharagraff 2.1.5.

## 2.3. Asesu a Sicrwydd

2.3.1. Rhaid i fframweithiau bennu sut y caiff cymhwysedd galwedigaethol a gwybodaeth eu hasesu a sut y darperir tystiolaeth ohonynt.

2.3.2. Rhaid i Medr fod wedi ei fodloni bod trefniadau ar gyfer asesu a chyflawniad yn sicrhau deilliannau cyson a chymaradwy ar draws fframweithiau cymeradwy, gan gynnwys pan nad yw fframweithiau'n dibynnu ar gymwysterau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru neu reoleiddiwr cymwysterau cydnabyddedig arall yn y DU.

## 2.4. Gofynion Cymhwysedd Galwedigaethol Ychwanegol

2.4.1. Caiff fframweithiau bennu cyrsiau byr neu raglenni dysgu ychwanegol sy'n ofynnol i fodloni gofynion cymhwysedd galwedigaethol.

2.4.2. Pan fo gofynion cymhwysedd galwedigaethol ychwanegol wedi eu cynnwys:

i. rhaid i'r fframwaith bennu'r deilliannau dysgu sydd i'w cyflawni;
ii. caniateir asesu deilliannau drwy gymwysterau neu drwy fathau eraill o asesu annibynnol y gellir eu gwirhau.

## 2.5. Hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith

2.5.1. Rhaid i fframweithiau bennu isafswm nifer yr oriau dysgu sy'n ofynnol i gwblhau'r fframwaith.

2.5.2. Rhaid i fframweithiau bennu isafswm nifer yr oriau hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith sy'n ofynnol.

2.5.3. Rhaid i'r cydbwysedd rhwng hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith adlewyrchu:

i. natur yr alwedigaeth;

ii. cyfran yr asesiad yn y gweithle sy'n ofynnol.

2.5.4. Rhaid ymgymryd â'r holl hyfforddiant wrth gymryd rhan mewn prentisiaeth Gymreig gymeradwy.

## 2.6. Sgiliau Hanfodol

### 2.6.1. Lefel 2 (Prentisiaeth Sylfaen)

i. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen bennu'r lefelau cyflawniad disgwyliedig o ran:
- Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu; a
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif;

ar Lefel 1 o leiaf, neu'n uwch pan fo wedi ei phenderfynu gan ofynion y diwydiant.

ii. Caiff fframwaith bennu Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol ar Lefel 1 o leiaf pan fo'n berthnasol i berfformiad effeithiol yn yr alwedigaeth.

### 2.6.2. Lefel 3 (Prentisiaeth)

i. Rhaid i fframwaith prentisiaeth bennu'r lefelau cyflawniad disgwyliedig o ran:
- Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu; a
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif;

ar Lefel 2 o leiaf, neu'n uwch pan fo wedi ei phenderfynu gan ofynion y diwydiant.

ii. Caiff fframwaith bennu Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol ar Lefel 2 o leiaf pan fo'n berthnasol i'r alwedigaeth.

### 2.6.3. Lefelau 4 a 5 (Prentisiaeth Uwch)

i. Nid yw Sgiliau Hanfodol yn orfodol ar gyfer fframweithiau prentisiaethau ar Lefelau 4 a 5.

ii. Rhaid i fframweithiau ddangos sut y maent wedi ystyried perthnasedd Sgiliau Hanfodol yn seiliedig ar:
- gofynion galwedigaethol;
- anghenion dysgwyr.

iii. Pan fo Sgiliau Hanfodol wedi eu cynnwys, mae'r gofynion a nodir ym mharagraff 2.6.2 yn gymwys.

iv. Pan na fo Sgiliau Hanfodol wedi eu cynnwys, rhaid i fframweithiau sicrhau bod anghenion dysgwyr wedi eu nodi, gan gynnwys drwy asesiad cychwynnol, a bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu pan fo'n ofynnol.

### 2.6.4. Lefelau 6 a 7 (Gradd-Brentisiaeth)

i. Nid yw Sgiliau Hanfodol yn orfodol ar gyfer fframweithiau gradd-brentisiaeth.

## 2.7. Cymwysterau Procsi

2.7.1. Pan fo Sgiliau Hanfodol wedi eu pennu mewn fframwaith, rhaid i'r fframwaith bennu'r cymwysterau procsi a dderbynnir ar gyfer:

i. Cyfathrebu;
ii. Cymhwyso Rhif;
iii. Llythrennedd Digidol (pan fo'n gymwys).

2.7.2. Cymwysterau procsi yw’r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y Rhestr Brocsi sydd mewn grym ar y dyddiad y daw’r fframwaith prentisiaeth perthnasol i rym.

2.7.3. Bydd unrhyw ddiwygiad i’r Rhestr Brocsi yn cael ei gyhoeddi ar wahân.

**2.8. Cwblhau’r Brentisiaeth**

2.8.1. Bernir bod prentis wedi cwblhau’r brentisiaeth pan fo holl gydrannau gorfodol y fframwaith wedi eu cyflawni’n llwyddiannus. Rhaid cyflawni’r cydrannau hyn yn llawn, gan gynnwys cymhwysedd galwedigaethol, gwybodaeth dechnegol, unrhyw ofynion ychwanegol, a Sgiliau Hanfodol (pan fônt wedi eu pennu), yn unol â’r trefniadau asesu a nodir yn y fframwaith.